Aros fel yr ydym

Opsiwn 3. Staff cymorth mewn ysgolion yng Nghymru'n parhau i fod yn rhan o'r Cyd-gyngor Cenedlaethol

Aros fel yr ydym, fel bod staff cymorth mewn ysgolion yng Nghymru'n parhau i fod yn rhan o fargeinio dros gyflogau yng Nghymru a Lloegr ar gyfer yr holl staff a gyflogir gan awdurdodau lleol.

Nid yw goblygiadau staff cymorth mewn ysgolion yng Nghymru'n parhau yn yr NJC ochr-yn-ochr â gweithwyr cyngor yng Nghymru a Lloegr yn hysbys.

Mae penderfyniad Llywodraeth y DU i sefydlu'r SSSNB ar gyfer Lloegr yn cydnabod nad yw cyflogau ac amodau gwaith ar gyfer staff ysgol yn ddigon deniadol i ysgolion recriwtio a chadw digon o staff, ac mae am wneud rhywbeth am hynny.

A fyddai'r NJC yn canolbwyntio cymaint ar wella bywydau gwaith staff cymorth mewn ysgolion?

Beth nesaf?

Hoffem i chi siarad â chyd-aelodau UNSAIN yn eich ysgol i weld sut maent yn teimlo.

Rydym yn cynnal ymgynghoriad ar-lein gyda holl aelodau UNSAIN sy'n staff cymorth mewn ysgolion yng Nghymru. Bydd yn agor ddydd Llun 27ain Ionawr ac yn cau am 5pm ddydd Gwener 14eg Chwefror. Rydym yn gofyn i chi roi'r tri opsiwn yn nhrefn blaenoriaeth, gydag 1 fel yr opsiwn sydd orau gennych.

I gael rhagor o wybodaeth am yr SSSNB a Bil Hawliau Cyflogaeth y DU, **cliciwch yma** (a byddwch yn ymwybodol bod SSSNB yn gweithredu'n uniaith Saesneg).

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, e-bostiwch cymruwalesschools@unison.co.uk

Cyfranogwch

Os hoffech ymuno â rhwydwaith o staff cymorth mewn ysgolion a derbyn diweddariadau y gallwch eu rhannu â chydweithwyr ynghylch y mater hwn, rhowch wybod i ni. E-bostiwch cymruwalesschools@unison.co.uk

UNSAIN Cymru Wales

Wedi'i gyhoeddi gan UNSAIN Cymru, Tŷ UNISON, Heol Y Tollty, Caerdydd CF10 1AP